**BioBlitz "olympaidd" ei faint!**

Cynhaliwyd BioBlitz ar dir Castell Bodelwyddan am y tro cyntaf ar 14 a 15fed Gorffennaf, a darganfuwyd mwy na 400 o rywogaethau yn ystod cyfnod o 24 awr. Trefnwyd y digwyddiad gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ar y cyd â Cofnod, Ymddiriedolaeth Prydain ar gyfer Gwirfoddolwyr Cadwraeth a Chyngor Sir Ddinbych. Roedd hwn hefyd yn ddigwyddiad '**Cyfarfod y Rhywogaeth**', sy'n rhan o Darganfod Llefydd – Ymgyrch Olympiad Diwylliannoll Llundain 2012 i ysbrydoli pobl y DU i ddod i adnabod eu hamgylchedd lleol.

Denodd y digwyddiad fwy nag ugain o arbenigwyr lleol ar rywogaethau a buont yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad gydag aelodau o'r cyhoedd a oedd yn dangos diddordeb. Hefyd cofnodwyd yr holl rywogaethau y daethant o hyd iddynt yn union o amgylch y castell ac yn y coed a'r caeau gerllaw. Ar gyfer mwy na hanner y rhywogaethau a gofnodwyd, nid oedd gan Cofnod unrhyw gofnodion o'r blaen yn ei fas data ar gyfer yr ardal hon, ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig ydi'r digwyddiadau BioBlitz yma er mwyn ehangu ein gwybodaeth am fywyd gwyllt Gogledd Cymru a chyfrannu at ei gadwraeth.

Cofnodwyd planhigion fasgwlaidd, mwsoglau, llysiau'r afu, ffwng, adar, mamaliaid, glöynnod byw, gwyfynod, pryfed cop, cacwn a mwy!, gan ddechrau gyda dal gwyfynod ar noson y 14$^{eg}$ a gorffen gyda thaith gerdded ystlumod y noson ganlynol. Defnyddiwyd llawer o adnoddau gwahanol i hwyluso'r broses gofnodi, gan gynnwys adnoddau syml tu hwnt (fforch diwnio i ddenu'r pryfed cop allan o waliau'r castell) yn ogystal â rhai hynod dechnolegol (trapiau camera i dynnu lluniau o foch daear, hyddod brith a chwningod yn crwydro'r tir yn ystod y nos).

Mae'r gwaith adnabod yn dal i fynd rhagddo i rai rhywogaethau sydd angen eu harchwilio o dan ficrosgop. Un rhywogaeth a gafodd ei hadnabod ar ôl y digwyddiad, a'i chadarnhau gan arbenigwr cenedlaethol, oedd y ffwng *Inocybe amethystina*, a gofnodwyd gan Charles Aron a Debbie Evans. Nid yw'r rhywogaeth yma wedi cael ei chofnodi yng Nghymru erioed o'r blaen! Ychydig iawn o gofnodion o'r rhywogaeth a geir ym Mhrydain hefyd – ai hynod brin yw'r rhywogaeth yma, neu un sy'n cael ei thangofnodi efallai, fel nifer o rywogaethau eraill ble mae angen arbenigedd sylweddol wrth adnabod?



*Inocybe amethystina*, Bodelwyddan, 15$^{fed}$ Gorffennaf 2012. Hawlfraint Charles Aron.

Un cofnod diddorol arall oedd *Bombus hypnorum* (Gwenynen y Coed) a ddarganfuwyd gan Oliver Prys-Jones. Cafodd ei chofnodi fel rhywogaeth newydd ym Mhrydain yn 2001, ac mae'r wenynen wedi lledu'n gyflym iawn ac eisoes wedi'i darganfod ledled Gogledd Cymru, cyn belled ag Ynys Môn. Cewch ddarllen mwy am sut mae'n dal i ymledu yng ngwefan BWARS.

Diolch o galon i'r holl gofnodwyr a wirfoddolodd eu hamser er mwyn i ni allu cynnal y digwyddiad hwn. Mae cofnodion o'r digwyddiad yn dal i'n cyrraedd ni, gan gynnwys un cofnod diweddar am wyfyn yn deor o chwiler a ganfuwyd yn ystod y digwyddiad! Mae posib gweld canlyniadau'r BioBlitz yma a'r rhai eraill sydd wedi'u cynnal yng ngwefan Cofnod a chofrestrwch nawr i wneud yn siŵr eich bod yn cael clywed am yr un nesaf yn ein e-gylchlythyr rheolaidd.